Am fod fy Iesu'n fyw

Caneuon Ffydd: Rhif 762

Am fod fy Iesu'n fyw,
byw hefyd fydd ei saint;
er gorfod dioddef poen a briw,
mawr yw eu braint:
bydd melys glanio draw
'n ôl bod o don i don,
ac mi rof ffarwel maes o law
i'r ddaear hon.

Ac yna gwyn fy myd
tu draw i'r byd a'r bedd:
caf yno fyw dan foli o hyd
mewn hawddfyd hedd
yng nghwmni'r nefol Oen
heb sôn am bechod mwy,
ond canu am ei ddirfawr boen
byth gyda hwy.

JOHN THOMAS, 1730–1804?

MYFYRDOD

Er bod y byd o'n cwmpas yn newid yn gyflym, heb fod fawr ddim yn aros yr un fath, fe wyddom nad yw rhai pethau yn newid yn y byd hwn. Un o'r rheiny, wrth gwrs, yw poen a dioddefaint. Yn anffodus, mae dioddefaint yn rhan o'n byd ni ac yma i aros yn ei amrywiol weddau.

Ond roedd gan y Methodistiaid cynnar, ac mae John Thomas, awdur ein hemyn yma, yn enghraifft wiw ohonyn nhw, bersbectif gwahanol ar y byd hwn sydd yn llawn poen. Bywyd caled eithriadol a gafodd John Thomas. Adrodda am ei fagwraeth yn ei hunangofiant, *Rhad Ras.* Bachgen eiddil ydoedd a gafodd ei fagu o luch i dafl gan wahanol berthnasau, ac yn nes ymlaen a gafodd ei gam-drin yn arw oherwydd ei ddaliadau. Gallai John Thomas fod wedi ymateb gyda hunandosturi a rhwystredigaeth, ond

yn hytrach fe ymatebodd gyda dewrder a sicrwydd fod yr hyn oedd wedi, ac yn digwydd iddo yn mynd i buro'i gymeriad a'i wneud yn berson gwell. Roedd yna ddyfalbarhad yn perthyn iddo ef fel i Paul gynt: 'yr ydym . . . yn gorfoleddu yn ein gorthrymderau, oherwydd fe wyddom mai o orthrymder y daw'r gallu i ymddál, ac o'r gallu i ymddál y daw rhuddin cymeriad, ac o gymeriad y daw gobaith' (Rhuf. 5:3). Gwyddai fel Cristion fod y wobr o'i flaen yn fwy na'r gost, a gallai ganu:

er gorfod dioddef poen a briw,
mawr yw eu braint.

Seiliai ei obaith ar y bywyd tragwyddol sydd yn Iesu Grist ac ar y ffaith bod Iesu'n fyw ac wedi ei atgyfodi ar y trydydd dydd ar ôl ei groeshoelio. Yno byddai pob poen yn darfod:

Caf yno fyw dan foli o hyd
mewn hawddfyd hedd.

Dyma gonglfaen ffydd y Cristion. Os na chafodd Iesu ei gyfodi, mae'r canlyniadau yn rhai trychinebus i bob Cristion. 'Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd' (1 Cor. 15:17), meddai Paul wrth yr eglwys yng Nghorinth pan gododd rhyw amheuaeth am wirionedd yr atgyfodiad yno. Byddai'r cwbl wedi ei chwalu, a John Thomas druan a myrddiynau o gredinwyr eraill yn fwy truenus na neb, am mai pen draw'r drychineb yma fyddai nad oes nefoedd i'w chael: 'Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r bobl fwyaf truenus o bawb' (1 Cor. 15:19).

Ond 'os' a ddywedodd Paul wrth resymu â'r amheuwyr. Dyma'i ddyfarniad ar y mater: 'Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno' (1 Cor. 15:20). Dyna sail gobaith a hyder John Thomas yng nghanol byd o boen hefyd:

Am fod fy Iesu'n fyw
Byw hefyd fydd ei saint.

GWEDDI

O Dduw, a gyfodaist Iesu ar ein cyfer, diolchwn fod inni sail i'n ffydd a'n gobaith ynddo ef, ac y coronir ffydd y saint 'yng nghwmni'r nefol Oen heb sôn am bechod mwy'. Yn enw Iesu. Amen.